# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019** |
| **Cadeirydd :** | **Councillor D.Jones** |
| **Is-gadwirydd:** | **Councillor** |
| **Cynghorwyr**: | A.J.Taylor a/ac S.E.Freeguard |
| **Aelodau di-bleidlais:** | Councillors C.Clement-Williams, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Rees, D.Hopkins, C.Lewis, A.Hutchings, T.Owen, Julie.Moore a/ac N.Headon |

---

## 1. SGWRSFOT YR ADNODDAU DYNOL

Derbyniodd y Pwyllgor arddangosiad a gwybodaeth mewn perthynas â chynllun peilot Sgwrsfot Adnoddau Dynol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 2. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU

Derbyniodd y Pwyllgor drosolwg o Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu, Chwarter 2 2019/20 fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y staff sy'n absennol oherwydd salwch sy'n ymwneud â straen. Esboniodd y swyddogion fod adroddiad ar yr agenda ar gyfer yr un cyfarfod, sy'n darparu trosolwg i'r Aelodau o Gynllun Gweithredu'r Prosiect Iechyd Meddwl sy'n gysylltiedig ag addewid Amser i Newid Cymru ac yn cynnwys diweddariad ar gyfer y camau gweithredu a gymerwyd eisoes.

Gofynnodd yr Aelodau am y data ar gyfer y cyfarfod nesaf, sef lleihau'r salwch iechyd meddwl sy'n ymwneud â straen fesul gwasanaeth.

Esboniodd y swyddogion fod gwefan Iechyd Meddwl yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a fyddai'n cyfeirio gweithwyr at yr help a'r gefnogaeth perthnasol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 3. GWYBODAETH AM GYFLOGAETH A CHYDRADDOLDEB 2018/19

Darparwyd Gwybodaeth am Gyflogaeth a Chydraddoldeb ar gyfer 2018-2019 i'r Aelodau.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y cyngor.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 4. Y DIWEDDARAF AM GYNLLUN GWEITHREDU'R GWEITHLU

Derbyniodd yr Aelod y diweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran y cynllun gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Gweithlu 2018-2022 y cyngor.

Amlygodd yr aelodau fod angen i iechyd meddwl yn y gweithle fod yn flaenoriaeth.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 5. Y DIWEDDARAF AM Y CYNLLUN CYFLOGWYR CHWARAE TEG

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad mewn perthynas â Chynllun Cyflogwr Chwarae Teg.

Amlygodd y swyddogion eu bod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y gweithlu er bod meysydd i'w gwella fel a nodwyd yn yr adroddiad. Byddai adroddiad sy'n nodi'r cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ymhen 6 mis.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

6. **PROSIECT DIWEDD Y MISLIF**

Darparwyd gwybodaeth i'r aelodau am Brosiect Diwedd y Mislif a gynhelir gan y Tîm Adnoddau Dynol.

Nodwyd y bwriedir cynnal dwy sesiwn diwedd y mislif arall yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi

7. **POLISÏAU CAM-DRIN DOMESTIG AC ABSENOLDEB ARBENNIG DIWYGIEDIG**

Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo cyflwyno'r Polisïau Cam-drin Domestig ac Absenoldeb Arbennig Diwygiedig fel a manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cyflwyno'r Polisïau Cam-drin Domestig ac Absenoldeb Arbennig.

8. **ADDEWID CYFLOGWYR AMSER I NEWID CYMRU - CYNLLUN GWEITHREDU**

Darparwyd diweddariad i'r aelodau mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd fel rhan o Addewid Cyflogwyr Amser i Newid Cymru y mae'r cyngor wedi'i fabwysiadau yn ystod mis Medi 2019.

Amlygwyd bod nifer o gamau gweithredu allweddol eisoes wedi'u cyflwyno drwy'r cyngor a byddai'r Grŵp Prosiect yn parhau i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu wrth fynd ymlaen.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **DIWYGIADAU I DDISGRESIYNAU CYNLLUN PENSIWN Y LLYWODRAETH LEOL**

Gofynnwyd i aelodau wella Polisi Disgresiynau Cyflogwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**PENDERFYNWYD**: Cymeradwyo Polisi Disgresiynau Cyflogwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

10. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

11. **DIWEDDARIAD TÂL**

Darparwyd diweddariad i'r Aelodau ar drafodaethau cyflog cenedlaethol, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**Cadeirydd**